OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 2237 (Cy. 219)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Esgobaeth Tyddewi (Gwaddolion Addysgol) (Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llangynllo) (Cymru) 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn penodi Ymddiriedolaeth Esgobaethol Tyddewi yn ymddiriedolwr ar waddol y sefydliad addysgol o'r enw Sefydliad Ysgol Llangynllo ac mae'n gwneud darpariaeth newydd ynghylch defnyddio'r gwaddol hwnnw. Mae'n creu dwy ymddiriedolaeth ar wahân, a'u henwau yw Cronfa'r Ysgol a'r Gronfa Addysg Grefyddol, ac mae'n rhannu asedau'r Sefydliad rhyngddynt.

Mae Cronfa'r Ysgol yn cael ei sefydlu o dan yr ymddiriedolaethau statudol unffurf fel a nodir yn yr Atodlen, er budd ysgolion gwirfoddol ac ysgolion sefydledig yr Eglwys yng Nghymru yn yr Esgobaeth.

Mae'r Gronfa Addysg Grefyddol yn cael ei sefydlu er mwyn darparu addysg grefyddol yn unol ag athrawiaethau’r Eglwys yng Nghymru o fewn y plwyf y lleolwyd yr ysgol ynddo.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2014 Rhif 2237 (Cy. 219)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Esgobaeth Tyddewi (Gwaddolion Addysgol) (Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llangynllo) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Awst 2014* |
| *Yn dod i rym* | *1 Hydref 2014* |

Dangoswyd er bodd Gweinidogion Cymru fod y Gwaddol yn cael neu wedi cael ei ddal mewn cysylltiad â darparu addysg grefyddol yn unol â daliadau'r Eglwys yng Nghymru mewn ysgol wirfoddol o fewn ystyr adran 32 o Ddeddf Addysg 1996(**1**) y mae ei mangre wedi peidio â chael ei defnyddio at ddibenion ysgol.

Mae cais am Orchymyn sy'n gwneud darpariaeth newydd ar gyfer defnyddio'r Gwaddol wedi ei wneud i Weinidogion Cymru gan Ymddiriedolaeth Esgobaethol Tyddewi, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru mai'r corff hwnnw yw awdurdod priodol yr Eglwys yng Nghymru at y diben hwnnw.

Mae hysbysiad am y Gorchymyn arfaethedig ac am hawl personau sydd â buddiant i wneud sylwadau wedi ei roi'n unol â darpariaethau adran 555 o Ddeddf Addysg 1996.

Nid oes unrhyw sylwadau wedi eu gwneud ar y Gorchymyn arfaethedig.

Asedau'r Sefydliad yw £96,000.00, sef enillion net gwerthiant mangre'r ysgol flaenorol sydd yn y weithred Sefydlu, a hefyd unrhyw incwm sy'n deillio o'r asedau hynny cyn y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

---

(**1**) 1996 p.56. Mae'r adran hon wedi ei diddymu ers hynny gan baragraff 69 o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31).

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 554 a 556 o Ddeddf Addysg 1996 ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn(**1**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Esgobaeth Tyddewi (Gwaddolion Addysgol) (Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llangynllo) (Cymru) 2014 a daw i rym ar 1 Hydref 2014.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "asedau'r Sefydliad" ("*the Foundation assets*") yw'r asedau sydd ar hyn o bryd yn cynrychioli'r Gwaddol;

ystyr "Cronfa'r Ysgol" neu "y Gronfa Ysgol" ("*the School Fund*") yw'r gronfa ysgol a sefydlir gan erthygl 4(a);

ystyr "yr Esgobaeth" ("*the Diocese*") yw Esgobaeth Tyddewi ac mae "yr Ymddiriedolaeth Esgobaethol" ("*the Diocesan Trust*") i'w ddehongli'n unol â hynny;

ystyr "y Gronfa Addysg Grefyddol" ("*the Religious Education Fund*") yw'r gronfa addysg grefyddol a sefydlir gan erthygl 4(b);

ystyr "y Gwaddol" ("*the Endowment*") yw'r gwaddol sydd yn y weithred Sefydlu;

ystyr "y Sefydliad" ("*the Foundation*") yw'r sefydliad addysgol o'r enw Sefydliad Ysgol Llangynllo a sefydlwyd drwy'r weithred Sefydlu;

ystyr "y weithred Sefydlu" ("*the Founding deed*") yw'r weithred a wnaed ar 30 Tachwedd 1870 rhwng y Parchedig William Rees ac Arglwydd Esgob Tyddewi ac Archddiacon Aberteifi;

---

(**1**) 1996 p.56. Amnewidiwyd adran 554(1) gan baragraff 168(2) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.15). Amnewidiwyd adran 554(3)(a) gan baragraff 168(3) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Diwygiwyd adran 554(3)(b) gan baragraff 168(3)(b) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Diwygiwyd adran 556(2)(a) gan baragraff 169(a) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Diwygiwyd adran 556(2)(b) gan baragraff 169(b) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 554 a 556 o Ddeddf Addysg 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

mae i “ysgol sefydledig” yr un ystyr â “*foundation school*” yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**); ac

mae i “ysgol wirfoddol” yr un ystyr â “*voluntary school*” yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

### Yr ymddiriedolwr a breinio

**3.**—(1) Mae'r Gorchymyn hwn yn penodi'r Ymddiriedolaeth Esgobaethol yn Ymddiriedolwr—

(a) y Sefydliad,

(b) asedau'r Sefydliad,

(c) Cronfa'r Ysgol, ac

(ch) y Gronfa Addysg Grefyddol.

(2) Mae'r holl gronfeydd sydd, yn union cyn dyddiad y Gorchymyn hwn, yn perthyn i’r Sefydliad neu sy’n cael eu dal mewn ymddiriedolaeth ar ei gyfer (ac eithrio unrhyw gronfeydd sydd eisoes yn cael eu dal gan yr Ymddiriedolaeth Esgobaethol) i'w trosglwyddo i’r Ymddiriedolaeth Esgobaethol, ac mae pob cam sy’n angenrheidiol at y diben hwnnw i'w gymryd gan unrhyw berson sy’n dal cronfeydd o’r fath.

### Rhannu Asedau

**4.** Mae asedau'r Sefydliad i'w rhannu'n ddwy gronfa ymddiriedolaeth ar wahân sef—

(a) Cronfa’r Ysgol sy’n cynnwys 11/14 rhan o asedau’r Sefydliad; a

(b) y Gronfa Addysg Grefyddol sy’n cynnwys 3/14 rhan o asedau’r Sefydliad.

### Gweinyddu'r Sefydliad

**5.**—(1) Ar ôl talu unrhyw dreuliau gweinyddol, rhaid i’r Ymddiriedolaeth Esgobaethol roi cyfrif am y gyfran honno o gyfalaf ac incwm asedau’r Sefydliad sy’n cynrychioli’r Gronfa Addysg Grefyddol i Ficer, neu i Reithor a Wardeiniaid Eglwys y plwyf yr oedd y Sefydliad wedi ei sefydlu ar ei gyfer i ddarparu addysg grefyddol.

(2) Mae pob Ficer, neu Reithor a Wardeiniaid Eglwys, y mae taliad yn cael ei wneud iddynt yn unol â darpariaethau'r paragraff blaenorol i’w gwneud yn ymddiriedolwyr y Gronfa Addysg Grefyddol a chaniateir iddynt gadw cyfalaf y Gronfa a defnyddio’r incwm sy’n cronni o hynny, neu’r cyfalaf o hynny, at ddibenion addysgol sy’n gysylltiedig â’r cyfryw blwyf mewn cysylltiad â darparu addysg grefyddol yn unol â

---

(**1**) 1998 p.31.

daliadau’r Eglwys yng Nghymru drwy gyfrwng Ysgol Sul neu fel arall.

(3) Mae’r Ymddiriedolaeth Esgobaethol i ddal Cronfa’r Ysgol ar yr ymddiriedolaethau statudol unffurf er budd ysgolion gwirfoddol neu ysgolion sefydledig yr Eglwys yng Nghymru yn yr Esgobaeth.

(4) Yn yr erthygl hon ystyr “ymddiriedolaethau statudol unffurf” (“*uniform statutory trusts*”) yw’r ymddiriedolaethau sydd wedi eu nodi yn yr Atodlen (sef yr ymddiriedolaethau statudol unffurf sydd wedi eu nodi yn Atodlen 36 i Ddeddf Addysg 1996 fel y maent yn gymwys mewn perthynas â Chronfa'r Ysgol).

**Cydgrynhoi**

**6.** Caniateir i Gronfa'r Ysgol gael ei chydgrynhoi at unrhyw waddol sydd eisoes yn bodoli ac sy’n cael ei ddal at y dibenion a bennir yn yr Atodlen.

*Huw Lewis*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

20 Awst 2014

Erthygl 6

# YR ATODLEN

**1.** Caiff yr Ymddiriedolaeth Esgobaethol, ar ôl iddi dalu unrhyw dreuliau yr aethpwyd iddynt mewn cysylltiad â gweinyddu Cronfa'r Ysgol, ddefnyddio cyfalaf ac incwm y Gronfa Ysgol honno at unrhyw un neu rai o’r dibenion a ganlyn—

(a) ar gyfer neu tuag at brynu safle ar gyfer mangre i unrhyw ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth, neu ar gyfer neu tuag at godi, gwella neu ymestyn mangre o’r fath;

(b) ar gyfer cynnal a chadw unrhyw ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth;

(c) ar gyfer neu tuag at brynu safle ar gyfer mangre a fydd yn dŷ i athro neu athrawes er mwyn ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth, neu ar gyfer neu tuag at godi, gwella neu ymestyn mangre o’r fath; ac

(ch) ar gyfer cynnal a chadw tŷ athro neu athrawes er mwyn ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth.

**2.** Caiff yr Ymddiriedolaeth Esgobaethol hefyd, wedi iddi dalu unrhyw dreuliau yr aethpwyd iddynt mewn cysylltiad â gweinyddu Cronfa'r Ysgol, ddefnyddio incwm y Gronfa honno at unrhyw un neu rai o’r dibenion a ganlyn—

(a) ar gyfer neu tuag at ddarparu cyngor, canllawiau ac adnoddau (gan gynnwys deunyddiau) mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n gysylltiedig â rheolaeth unrhyw ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth, neu mewn cysylltiad ag addysg sy’n cael ei darparu ynddi;

(b) darparu gwasanaethau ar gyfer gwneud unrhyw arolygiad o unrhyw ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth sy’n ofynnol gan Ran 1 o Ddeddf Addysg 2005(**1**); ac

(c) talu’r gost o gyflogi staff neu gymryd staff ymlaen mewn cysylltiad â'r canlynol—

(i) defnyddio incwm Cronfa’r Ysgol at y naill neu’r llall o’r dibenion y cyfeiriwyd atynt yn is-baragraffau (a) a (b),

(**1**) 2005 p.18.

(ii) defnyddio cyfalaf neu incwm Cronfa'r Ysgol at unrhyw un neu rai o'r dibenion y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 1.

**3.** Ystyr "ysgol berthnasol" ("*relevant school*") yw ysgol o'r math y cyfeiriwyd ati yn erthygl 5(3).